



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

# Cyngor Sir Ceredigion: Polisi a Strategaeth Rheoli Risg



## RHEOLI'R DOGFEN:

**Awdur:** Alun Williams (Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad)  
Alison Hodgson (Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol)

**Dyddiad:** 20/02/2024

**Fersiwn:** 3.0 Terfynol

**Cymeradwywyd gan:** Cabinet

**Dyddiad Cymeradwyo:** 20/02/2024

**Dyddiad Adolygu Nesaf:** 2026/27

# TABL CYNNWYS

## TUDALEN:

- 01** RHAGAIR
- 02** POLISI RHEOLI RISG
- 02** DATGANIAD POLISI RHEOLI RISG
- 04** STRATEGAETH RHEOLI RISG
- 04** PWRPAS
- 04** AMCANION
- 05** DIFFINIADAU
- 05** DIWYLLIANT RISG
- 06** ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU
- 06** ADNODDAU RHEOLI RISG
- 06** LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL
- 07** CYFRANOGIAD GRWPIAU CYSYLLTIEDIG ERAILL
- 07** ARCHWILIAD MEWNOL
- 08** PARTNERIAID
- 08** RISGIAU CENEDLAETHOL
- 09** RISGIAU CYMUNEDOL
- 09** RISGIAU CORFFORAETHOL
- 09** CONTRACTAU ALLANOL
- 10** ADOLYGIADAU
- 11** ATODIAD 1: ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

# 1 Rhagair

- 1.1 Croeso i ddogfen Polisi Rheoli Risg a Strategaeth Rheoli Risg ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion.
- 1.2 Mae rheoli risg yn effeithiol yn galluogi'r Cyngor i:
  - Bod yn fwy hyderus wrth gyflawni ein blaenoriaethau a'n canlyniadau.
  - Cyfyngu bygythiadau i lefelau derbyniol.
  - Gwneud penderfyniadau gwybodus am fanteisio ar gyfleoedd.
  - Sicrhau ein bod yn cael y cydbwysedd cywir rhwng gwobrau a risgiau.
  - Gwella trefniadau gweithio mewn partneriaeth a llywodraethu corfforaethol.
  - Diogelu pobl, asedau ac enw da'r cyngor.
  - Gwneud y mwyaf o gyfleoedd.
- 1.3 Yn y pen draw, bydd rheoli risg yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn manteisio i'r eithaf ar ei gyfleoedd ac yn lleihau effaith y risgiau y mae'n eu hwynebu, a thrwy hynny wella'r gallu i gyflawni blaenoriaethau, gwella canlyniadau i drigolion a lliniaru camau cyfreithiol a hawliadau ariannol yn erbyn y cyngor a difrodi ei enw da.
- 1.4 Mae'r ddogfen Polisi a Strategaeth Rheoli Risg yn darparu fframwaith a phroses gynhwysfawr a luniwyd i gefnogi Aelodau a Swyddogion i sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli risg yn llawn. Mae'r polisi'n amlinellu amcanion a manteision rheoli risg, yn disgrifio'r cyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg, ac yn rhoi trosolwg o'r broses sydd gennym ar waith i reoli risg yn llwyddiannus.
- 1.5 Bydd y Cyngor yn adolygu'r Polisi a'r Strategaeth o leiaf bob tair blynedd a bydd unrhyw amrywiadau i'r polisi hwn yn cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, cyn i'r Cabinet eu cymeradwyo.
- 1.6 Ategir y Polisi a'r Strategaeth hon gan ddogfen Fframwaith Rheoli risg ategol, y dylid ei darllen ar y cyd â'r ddogfen hon.

# 2 Polisi Rheoli Risg

## Datganiad Polisi Rheoli Risg

- 2.1 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydnabod bod dull rhagweithiol o reoli risg yn agwedd hanfodol ar gyflawni ei weledigaeth o ddarparu gwerth am arian gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach tra'n hyrwyddo lles yn ein pobl a'n cymunedau.
- 2.2 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Strategaeth Rheoli Risg effeithiol sy'n dod yn rhan annatod o ddiwylliant y sefydliad trwy adolygu, hyfforddiant, trafodaeth barhaus yn y Grŵp Arweiniol, nodi risgiau gwasanaeth a'r disgwyliad y bydd yr holl risgiau gwasanaeth yn cael eu hadrodd yn chwarterol. Mae hyn yn cyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol ac yn arbennig ei heffeithiolrwydd sefydliadol.
- 2.3 Mae'r Cyngor yn nodi, yn dadansoddi, yn rheoli ac yn defnyddio rheolaeth gost-effeithiol o'r risgiau y mae'n eu hwynebu er mwyn:
1. Sicrhau bod rhwymedigaethau statudol ac amcanion polisi yn cael eu bodloni.
  2. Sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Llesiant Corfforaethol a'r Amcanion Llesiant Cenedlaethol drwy ddarparu gwasanaethau'n well.
  3. Sicrhau bod prosiectau mawr ac arloesol yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.
  4. Sefydlu a chynnal ffyrdd effeithiol o weithio mewn partneriaeth.
  5. Cadw a hyrwyddo enw da'r Cyngor.
  6. Gwella prosesau, gwneud penderfyniadau, cynllunio, blaenoriaethu a gwneud y gorau o effeithlonrwydd gweithredol.
  7. Diogelu ei Aelodau etholedig, gweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth, disgyblion a'r holl randdeiliaid eraill y mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal tuag atynt.
  8. Dysgu o gyfleoedd, bygythiadau, llwyddiannau a methiannau blaenorol i lywio rheolaeth risgiau yn y dyfodol trwy gyflwyno strwythurau, cyngor, templedi a chanllawiau newydd i staff, yn ogystal â monitro agosach.
- 2.4 Mae arfarnu a rheoli risg yn berthnasol i holl brosesau Cyngor Sir Ceredigion ac yn arbennig mae'n rhan o'n:
- Llunio, archwilio ac adolygu polisiau
  - Polisi a strategaeth lechyd a Diogelwch
  - Cynllunio a rheolaeth ariannol
  - Cynllunio strategol a gosod amcanion
  - Cynllunio a darparu busnes a gwasanaeth
  - Prosesau adrodd a gwneud penderfyniadau
  - Rheoli Perfformiad
  - Prosesau rheoli Prosiect a Newid

- 2.5 Cydnabyddir y bydd rhai risgiau bob amser yn bodoli ac na fyddant byth yn cael eu dileu, fodd bynnag rhaid i bob gweithiwr ystyried risg a derbyn cyfrifoldeb am reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'u maes awdurdod.
- 2.6 Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau ymlyniad at bolisi'r Cyngor ar Reoli Risg.
- 2.7 Bydd Polisiâu, Strategaethau a Phrosesau Rheoli Risg yn cael eu hadolygu ar gyfer effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth fel rhan o'r cylch adolygu rheolaeth.

# 3 Strategaeth Rheoli Risg

## Pwrpas

3.1 Mae'r Strategaeth Rheoli Risg yn cyd-fynd â'r datganiad polisi, ac yn pennu'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni cyfres o amcanion rheoli risg.

## Amcanion

3.2 Amcanion y Strategaeth hon yw:

- Ymgorffori ac integreiddio rheoli risg yn niwylliant y Cyngor.
- Pennu rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer gweithgareddau rheoli risg o fewn y Cyngor. Mae'r "Model Tair Llinell Amddiffyn" wedi'i ymgorffori ym mapiau sicrwydd Archwilio Mewnol i gael sicrwydd gan reolwyr, archwilio mewnol a ffynonellau sicrwydd allanol e.e. rheoleiddwyr ac arolygiaethau.
- Codi ymwybyddiaeth o'r angen am reoli risg gan bawb sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau'r Cyngor.
- Atal anafiadau, difrod a cholledion i leihau cost risg.
- Gwella gwireddu cyfleoedd a'r buddion canlyniadol.
- Sicrhau cysondeb ar draws y Cyngor wrth reoli risg.

3.3 Bydd yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni drwy'r camau gweithredu canlynol:

- Ymgorffori ystyriaethau rheoli risg ym mhob lefel o gynllunio busnes.
- Ymgorffori ystyriaethau rheoli risg ym mhob lefel o drefniadau rhaglen, prosiect a phartneriaeth.
- Darparu hyfforddiant a datblygiad sgiliau ar gyfer yr holl Aelodau etholedig, rheolwyr a staff, o ran rheoli risg yn effeithiol.
- Monitro ac adrodd ar risgiau yn rheolaidd i nodi tueddiadau a chyfeiriad risgiau tebygol i Aelodau ac Uwch Reolwyr fod yn ymwybodol ohonynt wrth wneud penderfyniadau.
- Darparu sgorau archwaeth risg ym mhob Cofrestr Risg Gorfforaethol i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus yn unol â'r archwaeth risg ynghyd â llai o ansicrwydd a gwell cysondeb.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol rheoli risg corfforaethol yn y Cyngor, y cynnydd wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud â risg a adroddir i'r Pwyllgor ac yn ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol bob chwarter.
- Sicrhau bod y Fframwaith Rheoli Risg ar gael i'r holl Aelodau etholedig, staff, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ar fewnwyd a gwefan y Cyngor a chyfathrebu drwy sianeli rheoli.
- Sicrhau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gael i bob Aelod bob chwarter.

- Darparu hyfforddiant rheoli risg i'r Grŵp Arweiniol a'r holl reolwyr gyda'r nod o sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

## Diffiniadau

3.4 Mae Cyngor Sir Ceredigion yn diffinio Risg fel:

*“y posibilrwydd y gallai rhywbeth ddigwydd a fydd yn cael effaith andwylol ar gyflawni amcanion, enw da, neu ddarpariaeth gwasanaethau'r Cyngor'. Mae risg yn cael ei fesur yn nhermau effaith a thebygolrwydd.”*

3.5 Rheoli Risg yw'r prosesau cynlluniedig a systematig, lle mae risgiau allweddol yn cael eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli gan alluogi'r buddion mwyaf posibl a lleihau'r canlyniadau negyddol posibl i'r Cyngor a'i bartneriaid. Gellir dadansoddi risgiau a'u diffinio ymhellach gan fod rheoli risg yn galluogi'r Cyngor i:

- a) Adnabod risgiau yng nghyd-destun amcanion Corfforaethol, gan gynnwys cyfleoedd posibl.
- b) Asesu risgiau i bennu tebygolrwydd ac effaith pob risg.
- c) Penderfynu ar yr ymateb i bob risg yn unigol.
- d) Datblygu'r camau gweithredu, rheolaethau a phrosesau angenrheidiol i weithredu'r ymateb a ddewiswyd i bob risg.
- e) Cyfathrebu'r dull o reoli risg a chanlyniadau gweithgarwch rheoli risg.
- f) Gwneud y mwyaf o gyfleoedd.

3.6 Mae rheoli risgiau yn llywio gwaith cynllunio strategol a busnes ac yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r amcanion Llesiant Corfforaethol a nodir yn ei Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022, gwella'r modd y darperir gwasanaethau a gwella gwerth am arian.

## Diwylliant Risg

3.7 Mae diwylliant risg busnes cyfan cryf yn agwedd bwysig ar lywodraethu corfforaethol cryf. Diwylliant Risg yw'r gwerthoedd, agweddau ac arferion a rennir sy'n nodweddu sut mae'r Cyngor yn ystyried risg o ddydd i ddydd drwy:

- a) Codi ymwybyddiaeth o risgiau a wynebir gan y Cyngor.
- b) Dealltwriaeth o'r busnes a pherthnasedd risg.
- c) Perchnogaeth glir o risgiau.
- d) Cyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ar gyfer gweithgaredd rheoli risg.
- e) Monitro ac adrodd effeithiol ar effeithiolrwydd risg.

3.8 Er na ddylai'r Cyngor fod yn wrth-risg, mae'r egwyddorion a gynhwysir yn y polisi hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn taro'r cydbwysedd cywir yn ei ymagwedd at gyfle busnes a rheoli risg. Er mwyn cynorthwyo i gyflawni hyn, mae archwaeth risg yn rhan annatod o'r broses rheoli risg gyda'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cynnwys sgorau archwaeth

risg y mae'r awdurdod yn fodlon eu goddef. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y diwylliant risg yn cefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus yn unol â'r archwaeth risg.

## **Rolau a Chyfrifoldebau**

- 3.9 Holl Aelodau a Swyddogion y Cyngor sy'n gyfrifol am reoli risg yn effeithiol. O ystyried amrywiaeth gwasanaethau'r Cyngor a'r ystod eang o risgiau posibl, mae'n hanfodol bod cyfrifoldeb am nodi risgiau posibl a chymryd camau i fynd i'r afael â hwy yn glir.
- 3.10 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am fonitro datblygiad a gweithrediad effeithiol rheoli risg corfforaethol yn y Cyngor.
- 3.11 Mae dyraniad rolau a chyfrifoldebau pellach i'w gweld yn Atodiad 1.

## **Adnoddau Rheoli Risg**

- 3.12 Nid yw rheoli risg yn fater newydd ac mae pob Aelod a Swyddog yn gyfrifol am ystyried goblygiadau risg fel y maent yn berthnasol i'w gweithredoedd.
- 3.13 Mae Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr, yn gyfrifol am sicrhau bod Polisi a Strategaeth Rheoli Risg ar waith, gan gymryd cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau ymlyniad at Bolisi'r Cyngor ar Reoli Risg a darparu sicrwydd gwrthrychol ar effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoli risg sydd yn eu lle.
- 3.14 Mae'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn cefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Grŵp Arweiniol i hyrwyddo rheoli risg ar draws y Cyngor, gan sicrhau ymlyniad at y Polisi a rhoi sicrwydd bod hyn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. Maent yn darparu cymorth rheolwr llinell i Swyddogion Arweiniol Corfforaethol mewn perthynas â rheoli risg lle mae risgiau'n cael eu dwysáu neu pan gyrhaeddir cyfyngder.
- 3.15 Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dynodedig ar gyfer Risg ar Lefel y Grŵp Arweiniol yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Gwarchod y Cyhoedd. Maent wedi dirprwyo cyfrifoldeb am sicrhau ymlyniad at Bolisi'r Cyngor ar Reoli Risg a rhoi sicrwydd gwrthrychol bod hyn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ynghyd ag effeithiolrwydd y mecanweithiau a ddefnyddir i reoli risgiau a nodwyd. Maent hefyd yn gyfrifol am herio cydweithwyr ynghylch sgorio risg, pennu camau lliniaru ac os yw camau gweithredu wedi'u cyflawni.
- 3.16 Bydd y tîm Perfformiad ac Ymchwil yn gweithredu fel cyswllt rhwng aelodau etholedig, a'r Grŵp Arweiniol ar gyfer pob agwedd o reoli risg. Ceir rhagor o fanylion am y Swyddogaethau a'r Cyfrifoldebau yn Atodiad 1.

## **Llywodraethu Corfforaethol**

- 3.17 Yn unol â Chanllawiau CIPFA / SOLACE ar Lywodraethu Corfforaethol, mae'r Cyngor Sir wedi mabwysiadu Cod Lleol ar Lywodraethu Corfforaethol sy'n nodi'r fframwaith y bydd yn ei ddefnyddio i gyflawni ei gyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau effeithiol.



- 3.18 Mae Egwyddor F o ganllawiau uchod CIPFA yn nodi: Mae Rheoli Risgiau a pherfformiad trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref yn y fframwaith uchod yn cydnabod bod 'rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Dylid ystyried ac ymdrin â risg fel rhan o'r holl weithgareddau gwneud penderfyniadau'.
- 3.19 Mae'r Strategaeth Rheoli Risg hon yn sicrhau bod Polisi Rheoli Risg y Cyngor wedi'i ymgorffori'n llawn ym mhrosesau cynllunio a monitro strategol a gweithredol y Cyngor.

### Cyfranogiad Grwpiau Cysylltiedig eraill

- 3.20 Mae nifer o grwpiau swyddogion eraill yn bodoli, a fydd yn ymdrin â meysydd penodol o reoli risg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fforwm Iechyd a Diogelwch
- Grŵp Diogelwch Personol
- Grŵp Cynllunio at Argyfwng a Rheoli Parhad Busnes
- Grŵp Tywydd Garw Ceredigion
- Technoleg Gwybodaeth (Strategaeth)
- Grŵp Rheoli Gwybodaeth
- SIRO – Grŵp Risg Gwybodaeth
- Grŵp Monitro Cyfalaf
- Grŵp Rheoli Prosiect Corfforaethol
- Grŵp Datblygu
- Grŵp Rheoli Asedau

### Archwilio Mewnol

- 3.21 Fel y 3ydd linell amddiffyn, bydd gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi sicrwydd gwrthrychol i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor ar gadernid ac effeithiolrwydd y gweithdrefnau rheoli risg. Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol o bryd i'w gilydd ac yn gwerthuso'r gweithdrefnau Rheoli Risg Gorfforaethol gan gynnwys adrodd ar risgiau.
- 3.22 Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol Blyneddol yn seiliedig ar risg ac wedi'i alinio â'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu yn ôl risg. Bydd Archwilio Mewnol o bryd i'w gilydd yn gwerthuso rheolaeth y risgiau allweddol sydd wedi'u cynnwys mewn Cofrestrau Risg. Bydd yr holl risgiau coch o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cynllun gwaith Archwilio Mewnol dros gyfnod tonnog o ddwy flynedd a bydd adolygiadau cyfnodol o Gofrestrau Risg Gwasanaethau hefyd yn cael eu cynnwys yn y cynllun Archwilio Mewnol.
- 3.23 Bydd Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd gwrthrychol bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol ar gyfer pob ymgysylltiad archwilio a gwblhawyd. Bydd yr archwilydd yn nodi

risgiau ac yn profi'r rheolaethau sydd ar waith i liniaru'r risgiau hyn. Bydd canfyddiadau'r archwiliad yn cael eu hadrodd i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Rheolwyr Corfforaethol perthnasol ynghyd â chynllun gweithredu canlyniadol gan gynnwys risgiau a nodwyd, meysydd i'w gwella a chamau rheoli sydd eu hangen i liniaru risgiau.

- 3.24 Cynhelir gwiriadau gan Archwilio Mewnol i sicrhau bod y rheolwyr yn gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt.
- 3.25 Bydd y Grŵp Arweiniol yn derbyn copïau o'r holl adroddiadau archwilio allanol terfynol ac adroddiadau cynnydd archwilio mewnol i asesu a yw'r camau gweithredu a weithredwyd yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r risgiau a nodwyd ac a oes angen unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

## Partneriaethau

- 3.26 Bydd prosiectau cydweithio a gwaith partneriaeth dilynol yn cadw at y Protocol Prosiectau Cydweithio mewnol. Mae'r protocol yn sefydlu'r broses i'w dilyn wrth fynd i mewn i brosiect/partneriaeth newydd, sut i adolygu ac asesu prosiectau/partneriaethau cyfredol a sut i ddod â'n rhan mewn prosiect/partneriaeth i ben. Bydd yr holl dempledi sy'n rhan o'r protocol yn cynnwys adnabod, asesu neu fonitro risg.

## Risgiau Cenedlaethol

- 3.27 Y Gofrestr Risg Genedlaethol (NRR) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ac a ddiweddarwyd yn 2023, yw asesiad y llywodraeth o'r risgiau mwyaf difrifol sy'n wynebu'r DU.
- 3.28 Byddai'r risgiau sy'n bodloni'r trothwy ar gyfer eu cynnwys yn yr NRR yn cael effaith sylweddol ar ddiogelwch, diogeledd a/neu systemau critigol y DU ar lefel genedlaethol.
- 3.29 Mae'r NRR yn cynnwys gwybodaeth am themâu risgiau:
- Terfysgaeth
  - Seiber
  - Bygythiadau gan y wladwriaeth
  - Daearyddol a diplomyddol
  - Damweiniau a methiannau systemau
  - Peryglon naturiol ac amgylcheddol
  - Iechyd dynol, anifeiliaid a phlanhigion
  - Cymdeithasol
  - Gwrthdaro ac ansefydlogrwydd

## Risgiau Cymunedol

3.30 Mae Cofrestr Risg Gymunedol Fforwm Lleol Cymru Gydnerth Dyfed Powys yn amlinellu risgiau penodol a allai achosi argyfwng sifil yn rhanbarth Heddlu Dyfed Powys. Nid yw cynnwys risg yn y Gofrestr Risg Gymunedol yn golygu y bydd yn digwydd. Mae'n golygu ei fod yn cael ei gydnabod fel posibilrwydd ac mae sefydliadau wedi gwneud trefniadau i leihau ei effaith.

3.31 Mae'r prif risgiau a nodwyd yn cynnwys:

- Effaith Brexit
- Ffliw pandemig
- Llifogydd
- Tywydd Garw Arall (fel stormydd, gwyntoedd cryfion, tymereddau isel, eira trwm, tonnau gwres a sychder)
- Colli Isadeiledd
- Llygredd
- Clefyd Anifeiliaid
- Digwyddiadau Diwydiannol
- Digwyddiadau Trafnidiaeth
- Gwydnwch Ariannol
- Gallu a chapasiti gwydnwch y gweithlu
- Seiber Ymosodiad

## Risgiau Corfforaethol

3.32 Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn nodi datblygiadau neu ddigwyddiadau posibl a fyddai, pe baent yn digwydd, yn peryglu gallu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, darparu gwasanaethau fel y cynlluniwyd a chyflawni ei ddyletswyddau statudol. Yn benodol, y risgiau hynny sydd â sgôr risg uchel ac y bernir bod angen eu rheoli ar lefel gorfforaethol yn hytrach na lefel gwasanaeth.

## Contractau Allanol

3.33 Mae'r Tîm Caffael canolog yn cadw Cofrestr Contractau.

3.34 Bydd y Cyngor yn ystyried yr holl risgiau posibl yn ymwneud â chyflenwi a darparu gwasanaethau wrth baratoi ar gyfer caffael, ac yn lliniaru'r rhain drwy gwestiynau diwydrwydd dyladwy mewn tendrau a mesurau priodol mewn contractau. Bydd rheoli contractau dilynol, monitro contractau allweddol a pherthynas dda â chyflenwyr yn caniatáu ar gyfer nodi risgiau sy'n codi yn ystod oes y contract yn gynnar, ac ar gyfer cymryd camau priodol pan fo angen.

3.35 Bydd Caffael Canolog yn sefydlu rhwydweithiau gydag awdurdodau ac asiantaethau eraill ac yn rhannu gwybodaeth rheoli risg ac yn codi ymwybyddiaeth o faterion risg posibl a allai effeithio ar y Cyngor o safbwynt caffael.

## Adolygiadau

- 3.36 Bydd y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg yn cael eu hadolygu bob tair blynedd (neu'n amlach os oes angen gan newidiadau i ddeddfwriaeth statudol) ac ymgynghorir â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Grŵp Arweiniol cyn cwblhau a chyflwyno'r polisi i'r Cabinet i'w gymeradwyo.
- 3.37 Bydd y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei hadolygu gan y Grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mhob un o'u cyfarfodydd a bydd ar gael i bob rheolwr drwy system perfformiad Teifi.
- 3.38 Bydd risgiau gwasanaeth hefyd yn cael eu cadw ar system berfformiad Teifi ac ar gael i bob rheolwr.
- 3.39 Adolygu Cofrestri Risgiau Eraill fel rhan o'r trefniadau partneriaeth a rheoli priodol.

# Atodiad 1: Rolau a Chyfrifoldebau

Mae gan bawb ran i'w chwarae mewn fframwaith rheoli risg integredig, er enghraifft mae gan bawb gyfrifoldeb i adrodd am unrhyw risgiau newydd a nodir. Bydd cyfuno arweinyddiaeth ar y cyd ag ymagwedd tîm yn helpu i gyfrannu at ei lwyddiant yn y pen draw. Y rolau a nodir ar hyn o bryd yw:

GRŴP / RHANDEILIAID	DISGRIFIAD O'R RÔL
<b>AELODAU'R CABINET</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyo ac adolygu'r Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg a ategir gan y Fframwaith Rheoli Risg er mwyn diogelu ei asedau ac fel rhan annatod o'i weledigaeth ar gyfer Ceredigion.</li> </ul>
<b>PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darparu sicrwydd annibynnol i'r Cyngor llawn a rheolaeth o ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg.</li> <li>• Ystyried fframwaith sicrwydd y Cyngor a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn ddigonol â risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor.</li> <li>• Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol rheolaeth risg yn y Cyngor.</li> <li>• Monitro cynnydd wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud â risg a adroddir i'r Pwyllgor.</li> <li>• Ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol fel eitem ar yr agenda.</li> </ul>
<b>PWYLLGORAU ARCHWILIO</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Defnyddio'r Gofrestr Risg Corfforaethol i helpu i flaenoriaethu materion ar y rhaglen waith.</li> <li>• Integreiddio ymwybyddiaeth o reoli risg yn eu gwaith trwy adolygiadau ehangach o ddatblygiad polisi.</li> <li>• Rhoi gwybod am unrhyw risgiau newydd a nodwyd trwy gydol eu gwaith.</li> <li>• Cefnogi'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â deall ble a sut mae risgiau strategol yn dod i'r amlwg, mewn perthynas â materion sy'n dod i'r amlwg sy'n codi o adroddiadau ariannol, perfformiad neu risg rheolaidd, ac yn y dull mwyaf effeithiol o ddeall a gwerthuso trefniadau rheoli risg.</li> </ul>
<b>PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo Rheoli Risg a'i fanteision ledled y Cyngor.</li> <li>• Cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau ymlyniad at Bolisi'r Cyngor ar Reoli Risg a rhoi sicrwydd bod hyn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.</li> <li>• Penodi Swyddog Arweiniol Corfforaethol i gymryd cyfrifoldeb am reoli risg.</li> </ul>
<b>GRWP ARWEINIOL (LG)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Argymhell cymeradwyo Polisi a Strategaeth Rheoli Risg a ategir gan y Fframwaith Rheoli Risg.</li> <li>• Sicrhau bod Rheoli Risg yn cael ei weithredu ar draws y Cyngor yn unol â'r Polisi a Strategaeth Rheoli Risg cymeradwy.</li> <li>• Goruchwylio sefydlu a chynnal Cofrestr Risg Gorfforaethol.</li> <li>• Bod yn gyfrifol am dderbyn neu ddileu Risg Corfforaethol i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol neu ohoni.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dyrannu cyfrifoldeb i Swyddogion Arweiniol Corfforaethol i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer risgiau strategol corfforaethol.</li> <li>• Ystyried a chymeradwyo cynlluniau a mentrau rheoli risg gan gynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer rheoli Risgiau Critigol.</li> <li>• Ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â chynigion ar gyfer polisiau newydd / newidiedig a threfniadau darparu gwasanaeth.</li> <li>• Cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau ymlyniad at Bolisi'r Cyngor ar Reoli Risg a rhoi sicrwydd bod hyn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.</li> <li>• Cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am gadarnhau'r sgôr risg ar gyfer pob risg.</li> </ul>
<b>CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Hyrwyddo Rheoli Risg a'i fanteision ledled y Cyngor.</li> <li>• Cymryd cyfrifoldeb am sicrhau ymlyniad at Bolisi'r Cyngor ar Reoli Risg a rhoi sicrwydd bod hyn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.</li> <li>• Sicrhau bod adolygiadau risg rheolaidd o fewn eu cyfarwyddiaethau.</li> <li>• Darparu cefnogaeth rheolwr llinell i Swyddogion Arweiniol Corfforaethol mewn perthynas â rheoli risg pan fydd risgiau'n cael eu dwysáu neu pan fydd cyfyngder yn cael ei gyrraedd.</li> </ul>
<b>SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL, PERFFORMIAD POLISI A DIOGELU'R CYHOEDD</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi a Pherfformiad wedi dirprwyo cyfrifoldeb am sicrhau ymlyniad at Bolisi'r Cyngor ar Reoli Risg a rhoi sicrwydd bod hyn yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus.</li> <li>• Asesu effeithiolrwydd y mecanweithiau a ddefnyddir i reoli risgiau a nodwyd.</li> </ul>
<b>SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL CYLLID A CHAFFAEL</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151) sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth yswiriant o fewn yr Awdurdod.</li> <li>• Rheoli risgiau ariannol drwy'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.</li> </ul>
<b>RHEOLWR CORFFORAETHOL PARTNERIAETHAU A RHEOLWR PERFFORMIAD, RHEOLWR PERFFORMIAD AC YMCHWIL A SWYDDOG PERFFORMIAD A GWELLA CORFFORAETHOL</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydlynu gweithgareddau rheoli risg ar draws y Cyngor.</li> <li>• Adrodd ar weithgaredd rheoli risg i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Perfformiad Polisi a Gwarchod y Cyhoedd.</li> <li>• Cynnal cofrestr risg corfforaethol a chysylltu â Swyddogion Arweiniol Corfforaethol mewn perthynas â risgiau gwasanaeth.</li> <li>• Trefnu hyfforddiant rheoli risg i swyddogion ac aelodau, sy'n briodol i'w hanghenion a'u cyfrifoldebau.</li> <li>• Darparu cyngor a chymorth yn ôl yr angen.</li> <li>• Adolygu'r Fframwaith Rheoli Risg yn ôl yr angen.</li> </ul>

<p><b>SWYDDOGION ARWEINIOL CORFFORAETHOL</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod yn gyfrifol am reoli risgiau o fewn eu rheolaeth er mwyn diogelu eu gweithwyr a chleientiaid, diogelu asedau a chadw a gwella'r gwasanaethau a ddarperir i ddinasyddion trwy sicrhau bod amcanion datganedig y Cyngor yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus.</li> <li>• Sicrhau bod rheoli risg a pharhad busnes yn cael eu gwreiddio ar bob lefel o fewn eu maes cyfrifoldeb.</li> <li>• Sefydlu a chynnal Cofrestr Risg Gwasanaeth ar gyfer Teifi.</li> <li>• Datblygu cynlluniau gweithredu mewn perthynas â risgiau strategol corfforaethol fel y maent yn berthnasol i'w maes a chofnodi'r rhain yn y Cynllun Gwella Gwasanaeth perthnasol.</li> <li>• Adolygu addasrwydd cynlluniau a mentrau Rheoli Risg a gwneud argymhellion ar y rhain i'r Grŵp Arweiniol.</li> <li>• Sicrhau bod risgiau sy'n cael eu hadnabod fel rhai o bwys i'r Cyngor cyfan yn cael eu huwchgyfeirio'n amserol.</li> <li>• Annog argaeledd a rhannu gwybodaeth risg ar draws y Cyngor.</li> <li>• Rhannu profiad ar risg, rheoli risg a gweithredu strategaeth rheoli risg ar draws y Cyngor.</li> <li>• Yn gyfrifol am dderbyn Risg o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol neu o Gofrestr Risg Tîm.</li> <li>• Yn gyfrifol am argymhell uwchgyfeirio Risg i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol neu ddad-ddwysáu neu gymeradwyo archifo risg.</li> <li>• Adolygu risgiau gwasanaeth mewn cyfarfodydd Rheolwr Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn rheolaidd.</li> <li>• Rhoi gwybod i'r Cyfarwyddwr Cyllid am unrhyw newidiadau sylweddol yn narpariaeth y gwasanaeth sy'n debygol o godi os daw risg i'r amlwg i'w alluogi i sicrhau bod yswiriant a mesurau ariannu priodol a digonol yn eu lle.</li> </ul>
<p><b>RHEOLWYR CORFFORAETHOL</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n effeithiol ar bob lefel ym mhob maes gwasanaeth o fewn eu meysydd gwasanaeth penodol.</li> <li>• Parhau i ddatblygu eu Cofrestrau Risg Tîm a'u diweddarau'n rheolaidd (o leiaf bob chwarter).</li> <li>• Sicrhau bod risgiau sy'n cael eu hadnabod fel rhai arwyddocaol i'r Gwasanaeth / Cyngor cyfan yn cael eu huwchgyfeirio'n amserol.</li> <li>• Sicrhau bod rheoli risg yn gysylltiedig â Chynlluniau Gwasanaeth, prosiectau ayb. a chymhwysio rheolaeth risg i'r risgiau hynny y mae angen gweithredu pellach arnynt, yn enwedig datblygiadau newydd a gwaith "prosiect".</li> <li>• Deall a chynnal ymwybyddiaeth o reoli risg, egwyddorion a chymryd cyfrifoldeb am reoli risg yn eu hamgylchedd gwaith eu hunain.</li> <li>• Bod yn ymwybodol o asesiadau risg presennol sy'n ymwneud â'u maes gwaith a gweithdrefnau neu fesurau rheoli perthnasol i'w mabwysiadu er mwyn lleihau risgiau a nodwyd.</li> </ul>
<p><b>GWEITHWYR</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dwyn i sylw eu rheolwr llinell unrhyw faterion y maent yn credu eu bod yn risg i gyflenwi gwasanaethau'n llwyddiannus neu i</li> </ul>

	<p>gyflawni amcanion y Cyngor.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrannu at nodi, asesu a rheoli risgiau lle bynnag y bo modd.</li> </ul>
<b>ARCHWILIAD MEWNOL</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn rhoi sicrwydd gwrthrychol ar berfformiad y sefydliad i'r Fframwaith Rheoli Risg, digonolrwydd ac effeithiolrwydd gweithdrefnau rheoli risg a bod risgiau'n cael eu rheoli'n briodol.</li> </ul>
<b>ARCHWILIAD ALLANOL</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Archwilio Cymru yw Archwilwyr Allanol y Cyngor ac maent yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac yn cyfrannu at y sicrwydd ar Reoli Risg a ddarperir.</li> </ul>